**COFNODION DRAFFT**
Cofnodion Cyngor nos Iau Chwefror 9 2023 am 7pm
Presennol: E.R.Noble, C.Brewer, T.W.Jones, M.L.Hughes, M.Skerrett, C.L.Price.
Ymddiheuriad: I.W.Griffiths, Liz Roberts.
Datgan Diddordeb. C.Brewer

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 12.1.2023, cynnig C.Brewer, cefnogi M.L.Hughes.

Heddlu. Mae L.Roberts yn bwriadu trefnu cyfarfod gyda'r Arolygydd Laura Salisbury i drafod sawl mater am y pentref.

Yr A470. Liz Roberts wedi trefnu cyfarfod gyda J.Morris dydd Gwener Chwefror 17.

Cyngor Sir. Deallwyd fod wyneb newydd wedi'i roi ar rhan o Ffordd Roman hyd at yr A470, roedd Liz Roberts wedi cwyno am gyflwr wyneb y ffordd o'r Sgwar i Bentrefelin ac wedi cael gwybod gan NMWTRA y bydd wyneb newydd yn cael ei roi arni yn 2024. Roedd hi wedi dweud y dylent ddod i drafod ei cynlluniau gyda'r Cyngor lleol ac roeddent wedi cytuno.
Dim gwybodaeth pellach am symud yr 'ystol' ger Granllyn na'r ffordd ym Mhont y Pant.

Llwybrau. Dim i'w adrodd.

Pontydd yn yr Ardal. Dim i'w adrodd ond Liz Roberts yn dweud ei bod yn debygol mai yn 2025 y caiff Pont Sarn Ddu sylw o achos sefyllfa'r cyllid.

Cynlluniau.
Ty'n Afallen - dim penderfyniad
Bodygroes - dim penderfyniad
Pont Chwarel y Fedw - dim penderfyniad
3 Bron Llan - Dim gwrthwynebiad.
Cynllun Fferm Tanrallt - dim gwrthwynebiadau.
Gwalia - Tebygol fod y cais wedi'i ganiatau.

Llifogydd. Cadarnhaodd Liz Roberts ei bod yn cyfarfod gyda peiriannydd ger y Gofeb ar Chwefror 15 am 1:30pm i drafod cynllun gwaith gyda Tim Gwarchod Llifogydd CBSC, buasai'n falch petae rhai o'r Aelodau yn gallu bod yno. Pwysig fod y gwaith yn cychwyn cyn gynted a phosibl i gael cyllid gan Llywodraeth Cymru.

Scottish Power. Liz Roberts ar ddeall fod parsel o goed ar werth yn ardal Hafod Gwenllian gyda gobaith y bydd rhywbeth yn digwydd yno erbyn diwedd 2023.

Toiledau. Dim ymateb hyd yma o ran CBSC i lythyr y Cyngor ynglyn â'r ffaith fod y peiriant dŵr tu allan i'r toiledau wedi torri. Clerc i gysylltu eto gyda Gary Williams. Cytunwyd i ofyn i Zac dreialu gadael y toiledau ar agor am 24awr y dydd am gyfnod ac adolygu y sefyllfa..

Y Gofgolofn. Clerc i gael gair gydag E.Roberts am y wal.

Gwaith yn y Fynwent. Rhoes C.Brewer adroddiad manwl am y gwaith - llawer o'r gwaith wedi'i gwblhau a nododd ddiolch y Cyngor i'r rhai oedd yn gyfrifol, mae'r tywydd drwg wedi golygu peth oedi. Y cam nesaf yw ceisio grantiau ar gyfer atgyweirio'r Cwt Hers, mae 2 ffynhonnell bosibl, un yw'r Loteri Treftadaeth

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig T.W.Jones, cefnogi M.Skerret a pawb o blaid.

Llysiau'r Dial. Derbyniwyd awgrymiadau ar sut i geisio delio â'r sefyllfa gan A.Farrar ALFA, Clerc i weithredu arnynt..

Llwybyr ger Chwarel Ty'n y Bryn. Trafodwyd opsiynau eto, gan gytuno mai gosod camfa ar y safle yw'r ateb i'r broblem.

Dolwyddelan yn ei Blodau. Cadarnhaodd y Clerc fod y Cyngor wedi derbyn £495 gan Dolwyddelan yn ei Blodau, diolchodd yr Aelodau am y cyfraniad gan gytuno fod yr Aelodau yn gwneud gwaith arbennig yn y Gofgolofn.

Allt Gweithdy. Sylwadau wedi'i derbyn gan Alys Tatum o'r Parc Cenedlaethol oedd wedi galw i weld beth yw'r sefyllfa, roedd hi'n hapus nad oedd nam cynllunio wedi cymryd lle ond bydd hi'n cysylltu â'r tirfeddiannwr i nodi beth ddylai gael ei wneud os bydd angen rhagor o waith ar y safle.

Sgip. Menter Siabod wedi gofyn am gydweithrediad y Clerc i drefnu ymweliad sgip ac iddynt hwy dalu amdani.

Diffibriliwr. Gan fod galw wedi bod am osod rhai ychwanegol yn yr ardal gofynwyd i M.Skerrett i gael golwg ar yr hen rai sy'n berchen i'r Cyngor i weld os oes modd ei defnyddio?

Gwasanaeth Bysiau. Cyfeiriwyd gyda siomiant at y sefyllfa gyda'r gwasanaeth Bws T19, dywedodd Liz Roberts ei bod wedi cysylltu a thrafod gyda sawl un ond bod y sefyllfa yn hynod o anodd.

Cyfarfod nesaf. Cytunwyd i gyfarfod nesaf nos Iau Mawrth 9.